*This document is available in English* **Eitem Agenda 21**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **28 Ebrill 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Pwnc | **Penodi Swyddog Monitro a Thrysorydd** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cynghori'r Aelodau ar ofynion swyddi statudol y Swyddog Monitro a'r Trysorydd a cheisio cymeradwyaeth i ymestyn y penodiadau presennol hyd at 31 Mawrth 2027.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae rolau Swyddog Monitro a Thrysorydd yn swyddi statudol y mae'n rhaid iddynt gael eu dal gan unigolion penodol a chanddynt yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad perthnasol. Yn dilyn proses gystadleuol, cafodd y swyddi eu llenwi o 1 Ebrill 2021, ac argymhellir ymestyn y trefniant hwn tan 31 Mawrth 2027.

3 O dan delerau cyfansoddiad yr Awdurdod, mae angen i'r penodiad hwn gael ei ystyried gan y Panel Gweithredol cyn cael cymeradwyaeth lawn gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL

4 Ystyriwyd y mater hwn gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2025. Yn dilyn trafodaeth a sicrwydd ynghylch perfformiad y trefniadau presennol, cymeradwyodd y Panel Gweithredol yr argymhelliad i ymestyn y contractau ar gyfer y Swyddog Monitro a'r Swyddog A151 hyd at 31 Mawrth 2027.

## ARGYMHELLION

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) nodi'r gofyniad i benodi i rolau statudol Trysorydd a Swyddog Monitro; ac yn**
**ii) cymeradwyo'r argymhelliad i ymestyn y trefniadau presennol i 31 Mawrth 2027.**

## CEFNDIR

6 Sefydlwyd rôl statudol y Swyddog Monitro gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'n ofynnol i'r Swyddog Monitro roi cyngor ac arweiniad i'r Awdurdod mewn perthynas â materion cyfraith a gweinyddu.

7 Sefydlwyd rôl statudol y Trysorydd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod gynllunio ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a bod y cyfrifoldeb yn cael ei roi i un unigolyn, sef y swyddog cyllid cyfrifol.

8 Mae'r gofyniad i benodi i'r rolau statudol hyn yn cael ei gydnabod yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod ac mae Erthygl 7 yn cynnwys swyddi dynodedig Swyddog Monitro a Thrysorydd. Ac ystyried natur statudol y rolau hyn, mae'n ofynnol iddynt gael eu dal gan swyddog penodol.

9 Mae'r adran berthnasol o'r Cyfansoddiad yn cael ei hailadrodd yn Atodiad A er hwylustod cyfeirio, i gadarnhau cwmpas a swyddogaethau'r swyddi hyn.

10 Mae gwasanaethau'r Swyddog Monitro presennol yn cael eu caffael gan Gyngor Sir y Fflint ac mae'r rôl yn cael ei chyflawni gan swyddog penodol, sef ei Swyddog Monitro, Gareth Owens. Gwnaed y penodiad yn dilyn proses gystadleuol a ddaeth i ben yn ystod 2022, a gosodwyd y contract am gyfnod o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2025, gyda'r opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd arall, tan 31 Mawrth 2027.

11 Mr Dafydd Edwards yw'r Trysorydd presennol, ac fe'i penodwyd yn dilyn proses gystadleuol a ddaeth i ben yn ystod 2022, a gosodwyd y contract am gyfnod o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2025, gyda'r opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd arall, tan 31 Mawrth 2027.

**GWYBODAETH**

12 Mae rolau Swyddog Monitro a Thrysorydd yn gofyn am wybodaeth benodol am drefniadau awdurdodau lleol gan gynnwys materion cyfansoddiadol, llywodraethu, statudau, rheoliadau a chodau perthnasol. Dylai'r broses benodi ganiatáu ystyriaeth lawn o'r agweddau technegol hyn wrth ddyfarnu'r contractau.

13 Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn gofyn am lynu wrth egwyddorion y sector cyhoeddus o fod yn agored a thryloyw, ac roedd y broses yn dilyn proses agored a chystadleuol i alluogi'r rhai a oedd yn gymwys i'w chyflawni i ystyried y rôl. Gosodwyd y contractau am isafswm cyfnod o dair blynedd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2025, gyda'r opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd arall.

14 Yn unol â gofynion y Cyfansoddiad, dylai'r penderfyniad i ymestyn y contractau gael ei ystyried gan y Panel Gweithredol cyn i'r Awdurdod ei gymeradwyo.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae trefniadau llywodraethu cadarn yn ffactor allweddol wrth sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â'i amcanion llesiant. |
| Cyllideb | Mae'r rhain yn rolau statudol y mae darpariaeth gyllidebol wedi'i gwneud ar eu cyfer. |
| Cyfreithiol | Mae penodi Swyddog Monitro a Thrysorydd yn ofyniad statudol. |
| Staffio | Ni nodwyd unrhyw effaith. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd y broses benodi yn rhoi ystyriaeth briodol i gydymffurfio â'r agweddau hyn. |
| Risgiau | Byddai methu â phenodi yn golygu nad yw'r Awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldeb statudol ac yn ei wneud yn agored i her gyfreithiol a risg i'w enw da. |

**Atodiad A**

## 7. Swyddogion

### 7.1. Strwythur rheolwyr

(a) Bydd yr Awdurdod yn cyflogi pobl (a elwir yn swyddogion) fel y mae'n ystyried bod angen gwneud hynny er mwyn cyflawni ei swyddogaethau. Gall Swyddogion gael eu hawdurdodi naill ai gan yr Awdurdod neu gan Bwyllgor i wneud penderfyniadau. Mae hyd a lled y pwerau dirprwyedig hynny wedi eu nodi yn y Cynllun Dirprwyo cyffredinol yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn.

(b) Er nad oes gofyniad cyfreithiol i'r Awdurdod benodi Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, mae'r Awdurdod wedi dewis gwneud hynny fel mater o arfer dda. Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig fydd yn penderfynu ar y strwythur adrannol cyffredinol a lleoli staff.

(c) **Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Ariannol.**

Bydd yr Awdurdod yn dynodi'r swyddi canlynol fel hyn:

| SWYDD | DYNODIAD |
|---|---|
| Prif Swyddog Tân/Prif Weithredwr | Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig Swyddog |
| Adran 151/Trysorydd | Trysorydd |
| Clerc | Swyddog Monitro |

### 7.2. Swyddogaethau Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig

**(a) Cyflawni swyddogaethau gan yr Awdurdod**

Bydd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig yn adrodd i'r Awdurdod ynghylch y modd y cyd-gysylltir y gwaith o gyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

**(b) Cyfyngiadau ar swyddogaethau**

Ni chaiff Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig fod yn Swyddog Monitro, ond caiff fod yn Drysorydd os yw'n gyfrifydd cymwysedig.

### 7.3. Swyddogaethau'r Swyddog Monitro

**(a) Cynnal ac adolygu'r Cyfansoddiad**

Bydd y Swyddog Monitro yn cadw fersiwn gyfoes o'r Cyfansoddiad, a bydd yn sicrhau ei fod ar gael yn eang ar gyfer ymgynghori â'r Aelodau, y staff a'r cyhoedd. Bydd ef/hi yn cadw'r cyfansoddiad dan adolygiad yn unol ag Erthygl 11 isod.

**(b) Sicrhau cyfreithlondeb a thegwch wrth wneud penderfyniadau**

Ar ôl ymgynghori â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Trysorydd, bydd y Swyddog Monitro yn dweud wrth yr Awdurdod os yw'n ystyried y byddai unrhyw gynnig, penderfyniad
neu hepgoriad yn arwain at anghyfreithlondeb neu os yw unrhyw benderfyniad neu hepgoriad wedi arwain at gamweinyddu. Bydd gwybodaeth o'r fath yn cael yr effaith o rwystro'r cynnig
neu'r penderfyniad rhag cael ei weithredu hyd oni fydd yr wybodaeth wedi cael

ei hystyried.

**(c) Safonau Moesegol**

Bydd y Swyddog Monitro yn cyfrannu at hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad drwy:

(i) ddarparu hyfforddiant i'r Aelodau
(ii) cael cwynion o honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad, gweithredu arnynt, a lle bo'n briodol ymchwilio iddynt, a hynny yn unol â'r Trefniadau ar gyfer Ymchwilio a Phenderfynu mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad; a
(iii) darparu cyngor a chymorth i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Safonau.

**(d) Y swyddog priodol ar gyfer mynediad at wybodaeth**

Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod penderfyniadau'r Awdurdod a'i bwyllgorau, ac adroddiadau perthnasol gan swyddogion a phapurau cefndirol, ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo modd.

**(e) Darparu cyngor**

Bydd y Swyddog Monitro yn darparu cyngor ynghylch pwerau'r Awdurdod, camweinyddu, cywirdeb ariannol, y Codau Ymddygiad, y Rheolau Sefydlog a'r protocolau i'r holl Aelodau, a bydd yn cynghori ac yn cefnogi'r Aelodau a'r swyddogion yn eu swyddi.

**(f) Cyfyngiadau ar swyddi**

Ni chaiff y Trysorydd na Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig fod yn Swyddog Monitro.

**7.4. Swyddogaethau'r Trysorydd**

**(a) Sicrhau cyfreithlondeb a darbodaeth ariannol wrth wneud penderfyniadau**

Ar ôl ymgynghori â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Swyddog Monitro, bydd y Trysorydd yn adrodd i'r Awdurdod ac archwilydd allanol yr Awdurdod os yw'n ystyried y bydd
unrhyw gynnig, penderfyniad neu gamau gweithredu yn golygu gwariant anghyfreithlon, neu ei fod yn anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg neu os yw'r Awdurdod ar fin cynnwys
eitem ar y cyfrifon yn anghyfreithlon.

**(b) Gweinyddu materion ariannol**

Bydd y Trysorydd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod.

**(c) Darparu cyngor**

Bydd y Trysorydd yn darparu cyngor i bawb ynghylch anghywirdeb ariannol, uniondeb a fframwaith y gyllideb a pholisïau, a bydd yn cefnogi ac yn cynghori'r cynghorwyr a'r swyddogion yn eu swyddi.

### 7.5. Ymddygiad

(a) Bydd y Swyddogion yn cydymffurfio â'r Protocol ar Gysylltiadau rhwng Swyddogion ac Aelodau, a nodir yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad.

(b) Bydd y Swyddog Monitro yn cofnodi, mewn llyfr i'w gadw i'r diben, fanylion unrhyw hysbysiad a roddir gan Swyddog o'r Awdurdod dan Adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ynghylch buddiant ariannol mewn contract, neu gontract arfaethedig, a bydd y llyfr ar gael yn ystod oriau swyddfa i'w archwilio gan unrhyw Aelod o'r Awdurdod.

### 7.6. Cyflogi

Bydd y gwaith o recriwtio, dethol a diswyddo swyddogion yn cydymffurfio â'r Rheolau Cyflogi Swyddogion a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.